Drwy e-bost i bob ysgol a choleg yng Nghymru.

7 Rhagfyr 2016

Annwyl gydweithiwr

## Y diweddaraf ar ddiwygio cymwysterau TGAU a Safon Uwch yng Nghymru

Wrth i ni ddechrau ar gam olaf diwygio cymwysterau TGAU a Safon Uwch, hoffwn grynhoi'r hyn sy'n digwydd ac egluro beth fydd y newidiadau diweddaraf yn ei olygu i ysgolion a cholegau yn y flwyddyn i ddod. Hyderaf y bydd y wybodaeth hon o gymorth i chi wrth ddatblygu eich cynlluniau ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf.

Y prif bwyntiau a gwmpesir yn y llythyr hwn yw:

- Y cymwysterau TGAU a Safon Uwch newydd rydym yn eu cymeradwyo i'w haddysgu gyntaf yn 2017 a'r hyfforddiant a'r adnoddau a gynllunnir i gefnogi'r gwaith o'u cyflwyno.
- Argaeledd cymwysterau TGAU a Safon Uwch newydd mewn pynciau â niferoedd isel.
- Asesiad olaf cymwysterau sy'n cael eu disodli neu sy'n dod i ben.

## Cymeradwyo cymwysterau TGAU a Safon Uwch ar gyfer Cymru yn unig yn 2017

Caiff cymwysterau TGAU a Safon Uwch a ddyluniwyd yn benodol ar gyfer Cymru eu diwygio i'w haddysgu gyntaf o fis Medi 2017.

| TGAU | Safon Uwch |
|---|---|
| Busnes<br>Cyfrifiadureg | Dylunio a Thechnoleg<br>Mathemateg Bellach |

Cymwysterau Cymru
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 0333 077 2701

www.cymwysteraucymru.org

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 0333 077 2701

| | |
|---|---|
| Dylunio a Thechnoleg<br>Hanes<br>Astudiaethau'r Cyfryngau<br>Astudiaethau Crefyddol<br>Cymraeg Ail Iaith | Llywodraeth a Gwleidyddiaeth<br>Y Gyfraith<br>Mathemateg<br>Astudiaethau'r Cyfryngau |

Ar ein gwefan, ceir amserlen fanwl[1] sy'n dangos pryd rydym yn disgwyl y bydd manylebau cymeradwy a deunyddiau asesu enghreifftiol ar gael ar gyfer pob un o'r cymwysterau hyn. Mae manylebau a deunyddiau cymeradwy eisoes ar gael ar gyfer TGAU Astudiaethau Crefyddol a TGAU Hanes. Ar gyfer yr holl bynciau eraill a restrir uchod, mae CBAC wedi cyhoeddi manylebau drafft ar ei wefan y dylech edrych arnynt os oes gennych ddiddordeb yn y newidiadau i'r pynciau hyn. Byddwn yn parhau i ddiweddaru ein gwefan wrth i ni gymeradwyo cymwysterau ac wrth i fanylebau a deunyddiau gorffenedig gael eu cyhoeddi.

Dros y misoedd nesaf, bydd CBAC yn cynnig hyfforddiant 'Paratoi i addysgu' ar gyfer pob un o'r cymwysterau newydd hyn. Mae'r hyfforddiant am ddim i un cynrychiolydd o bob canolfan. Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyfforddiant hwn ar wefan[2] CBAC.

Rydym yn gweithio'n agos gyda CBAC, Llywodraeth Cymru, Consortia Rhanbarthol a Colegau Cymru i gytuno ar ba gymorth arall fydd ar gael i athrawon sy'n paratoi ar gyfer y cymwysterau newydd hyn. Ym mis Ionawr byddwn yn diweddaru ein gwefan gan egluro pa gymorth penodol fydd ar gael gyfer pob pwnc, pryd y caiff ei gynnig, gan bwy, a sut i gael gafael arno.

Un newid pwysig sydd ynghlwm wrth y diwygiadau hyn yw cael gwared ar Gwrs Byr TGAU Cymraeg Ail Iaith. Ym mis Ionawr byddwn yn cynnal cyfres o sesiynau holi ac ateb rhanbarthol i roi cyfle i athrawon ac uwch dimau rheoli drafod y newidiadau i Gymraeg Ail Iaith gyda chynrychiolwyr o Cymwysterau Cymru, CBAC, Consortia Rhanbarthol a Llywodraeth Cymru. I gael rhagor o wybodaeth am y digwyddiadau, neu i gofrestru ar-lein, ewch i'n gwefan[3].

[1] http://qualificationswales.org/media/2186/amserlen-2017.pdf
[2] http://www.cbac.co.uk/teachers/teacher-support/face-to-face-courses-for-teachers/?language_id=2
[3] http://qualificationswales.org/events/welsh-second-language-events-2017/?lang=cy&

## Cymwysterau TGAU a Safon Uwch mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol a TGCh

Yn dilyn ein hadolygiad diweddar o gymwysterau yn y sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol, bwriadwn gomisiynu cymwysterau newydd ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Datblygiad Plant, i'w haddysgu gyntaf o fis Medi 2019. Bydd y rhain yn cynnwys cymhwyster newydd lefel 1/2 a fydd yn disodli cymwysterau TGAU a chymwysterau eraill a addysgir mewn ysgolion, a chymwysterau lefel 2 a 3a fydd yn disodli cymwysterau Safon Uwch a chymwysterau a gaiff eu hastudio'n aml gan ddysgwyr rhwng 16 a 19 oed, gan gynnwys cymwysterau Safon Uwch. Tan hynny, bydd CBAC yn parhau i gynnig ei gymwysterau TGAU a Safon Uwch mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'i gymhwyster TGAU mewn Economeg Cartref: Datblygiad Plant.

Rydym bellach yn cynnal adolygiad llawn o gymwysterau yn y sector TG. Wrth i ni wneud hynny, rydym wedi penderfynu peidio â diwygio'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer cymwysterau TGAU a Safon Uwch mewn TGCh. Os byddwn, o ganlyniad i'n hadolygiad, yn penderfynu cyflwyno cymwysterau newydd ar gyfer y maes pwnc hwn, ni fyddem yn disgwyl iddynt gael eu cyflwyno i'w haddysgu gyntaf cyn mis Medi 2020. Tan hynny, rydym wedi cytuno y bydd CBAC yn diweddaru ei fanylebau TGAU, Safon Uwch a Safon Uwch Gymhwysol presennol ar gyfer TGCh i'w haddysgu gyntaf ym mis Medi 2017. Disgwyliwn i'r manylebau deunyddiau asesu enghreifftiol newydd fod ar gael ym mis Mawrth 2017.

## Argaeledd cymwysterau TGAU a Safon Uwch newydd mewn pynciau â niferoedd isel

Mae rhai pynciau TGAU a Safon Uwch lle mae'r nifer o ddysgwyr yng Nghymru yn rhy isel i'w wneud yn ymarferol i unrhyw gorff dyfarnu ddatblygu cymwysterau i'w dyfarnu yng Nghymru yn unig. Mewn rhai o'r pynciau hyn, caiff cymwysterau TGAU a Safon Uwch eu diwygio yn Lloegr, lle mae'r nifer bosibl o ymgeiswyr yn ddigon mawr i wneud y cymwysterau yn ymarferol.

Rydym wedi rhestru'r holl bynciau hyn yn yr atodiad amgaeedig, ynghyd â chyfeiriad at ba gorff dyfarnu a fydd yn eu cynnig fel cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch diwygiedig yn Lloegr. Mae hyn yn bwysig oherwydd ni chaiff yr holl

bynciau eu cynnig gan bob corff dyfarnu a dim ond un corff fydd yn cynnig rhai ohonynt.

Rydym wedi gwahodd cyrff dyfarnu sy'n cynnig y cymwysterau hyn yn Lloegr i wneud cais am ddynodiad gennym fel eu bod yn gymwys i'w defnyddio ar raglenni dysgu a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r cymwysterau hyn wedi'u dylunio i fodloni gofynion a bennwyd gan Ofqual, sef y rheoleiddiwr cymwysterau yn Lloegr. Maent yn wahanol mewn sawl ffordd bwysig i'r cymwysterau TGAU a Safon Uwch hynny yr ydym wedi gosod Meini Prawf Cymeradwyo ar eu cyfer. Er enghraifft, caiff graddau cymwysterau TGAU newydd yn Lloegr eu pennu ar raddfa o 1 i 9 yn hytrach na A* i G; ac mae'r cymwysterau Uwch Gyfrannol a Safon Uwch yn Lloegr wedi'u gwahanu, felly nid yw'r canlyniadau Uwch Gyfrannol yn cyfrannu at y radd gyffredinol a ddyfernir ar gyfer y cymhwyster Safon Uwch. Ceir rhagor o wybodaeth am y prif nodweddion sy'n debyg ac yn annhebyg rhwng cymwysterau TGAU a Safon Uwch diwygiedig yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ar ein gwefan[4], gan gynnwys map ffeithlun sy'n crynhoi'r prif bwyntiau.

Dewis i'r cyrff dyfarnu sy'n cynnig y cymwysterau hyn yn Lloegr fydd penderfynu a ydynt am wneud cais i'w dynodi yng Nghymru. Er mwyn annog cyrff dyfarnu i gynnig yr ystod ehangaf bosibl o bynciau i ddysgwyr yng Nghymru, nid ydym yn mynnu eu bod yn cael eu cynnig yn Gymraeg. Fodd bynnag, mae'n ofynnol iddynt gyhoeddi datganiad ar gyfer pob cymhwyster sy'n cadarnhau p'un a fydd ar gael yn Gymraeg ac, os ydyw, yn egluro sut i ofyn am asesiad yn Gymraeg.

Mae'r cyrff dyfarnu sy'n cynnig y cymwysterau hyn yn Lloegr wedi cadarnhau eu bod yn bwriadu eu cynnig ar gyrsiau a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru fel a ganlyn.

- Nid yw **AQA** yn bwriadu cynnig cymwysterau TGAU a Safon Uwch diwygiedig yng Nghymru. Gallwch ddarllen mwy am benderfyniad AQA ar ei wefan[5]. Mae hyn yn golygu na fydd cymwysterau TGAU a Safon Uwch diwygiedig mewn rhai pynciau ar gael yng Nghymru.

[4] http://qualificationswales.org/news/291116-3-country-statement/?lang=cy&
[5] http://www.aqa.org.uk/about-us/what-we-do/policy/gcse-and-a-level-changes/wales-and-northern-ireland

- Bydd **OCR** yn cynnig ei gymwysterau TGAU a Safon Uwch diwygiedig ar gyrsiau a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru. Nid yw'n bwriadu cynnig unrhyw rai o'i gymwysterau TGAU a Safon Uwch diwygiedig yn Gymraeg.
- Bydd **Pearson** yn cynnig ei gymwysterau TGAU a Safon Uwch diwygiedig ar gyrsiau a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru. Bydd yn cynnig asesiad cyfrwng Cymraeg ar gyfer pynciau lle cafwyd galw am hyn yn y gorffennol a phan ddyfernir y byddai'n ymarferol weithredol i gynnig y ddarpariaeth hon yn y dyfodol.
- O dan frand **Eduqas**, mae CBAC yn cynnig nifer o'r cymwysterau TGAU a Safon Uwch a restrir yn Lloegr. Bydd yn sicrhau bod pob cymhwyster o'r rheiny a restrwyd a gynigir ganddo yn y fath fodd hefyd ar gael ar gyrsiau a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru. Bydd yn cynnig asesiadau yn Gymraeg ymhob un ohonynt ar gais.

Mae'r tabl sy'n amgaeedig gyda'r llythyr hwn yn nodi'r pynciau TGAU a Safon Uwch hynny sydd wedi'u cymryd drwy gyfrwng y Gymraeg mewn blynyddoedd diweddar, gydag un corff dyfarnu neu'r llall. Yn sgil bwriadau'r cyrff dyfarnu fel y nodwyd uchod, disgwyliwn y bydd asesiad cyfrwng Cymraeg yn parhau i fod ar gael yn yr holl bynciau hyn.

## Asesiad olaf cymwysterau sy'n cael eu disodli neu sy'n dod i ben

Mewn rhai pynciau, caiff cymwysterau TGAU a Safon Uwch 'etifeddol' presennol eu disodli gan rai newydd a ddyluniwyd yn benodol ar gyfer dysgwyr yng Nghymru. Mewn pynciau eraill, cânt eu disodli gan gymwysterau dynodedig sydd hefyd ar gael yn Lloegr.  Ni chaiff pynciau eraill eu cynnig o gwbl mwyach fel cymwysterau TGAU neu Safon Uwch.

Ceir rhestr lawn ar ein gwefan o'r holl gymwysterau etifeddol a ddaw i ben dros y tair blynedd nesaf[6]. Mae'r rhestr yn cynnwys dyddiadau pan gaiff pob cymhwyster ei asesu am y tro olaf, gan gynnwys unrhyw gyfleoedd olaf i ailsefyll.

[6] http://qualificationswales.org/development/last-awards-and-dates/?lang=cy&

## Rhagor o wybodaeth

Gobeithio y bydd y wybodaeth yn y llythyr hwn o fudd i chi. Rydym yn rhoi diweddariadau rheolaidd i ysgolion a cholegau ar gymwysterau TGAU, Safon Uwch a chymwysterau eraill a reoleiddir gennym drwy ein cylchlythyr '*Y Llechen*'. Gallwch gofrestru i gael hwn o'n gwefan[7].

Yn gywir

**Philip Blaker**
Prif Swyddog Gweithredol

Amg
Rhestr o gymwysterau TGAU (9-1), UG a Safon Uwch mewn pynciau â niferoedd isel a'r cyrff dyfarnu sy'n eu cynnig yn Lloegr.

[7] http://qualificationswales.org/about-us/get-involved/?lang=cy

**Atodiad:** Rhestr o bynciau TGAU (9-1), ac UG a Safon Uwch a'r cyrff dyfarnu sy'n eu cynnig yn Lloegr.

## Cymwysterau TGAU (9-1) i'w haddysgu gyntaf o 2016

Mae'r tabl isod yn dangos pa gyrff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau TGAU diwygiedig yn y pynciau a restrir.

Mae seren (*) wrth ochr enw pwnc yn dangos ei fod wedi cael ei gymryd fel TGAU etifeddol drwy gyfrwng y Gymraeg gydag o leiaf un bwrdd dyfarnu ers 2013.

| **Pwnc TGAU (9-1)** | **AQA** | **OCR** | **Pearson (Edexcel)** | **Eduqas CBAC** |
|---|---|---|---|---|
| Groeg Clasurol | Nac ydy | Ydy | Nac ydy | Nac ydy |
| Astudiaethau ddinasyddiaeth | Ydy | Ydy | Ydy | Nac ydy |
| Dawns | Ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy |
| Lladin* | Nac ydy | Ydy | Nac ydy | Ydy |

## Cymwysterau TGAU (9-1) i'w haddysgu gyntaf o 2017

Mae'r tabl isod yn dangos pa gyrff dyfarnu a fydd yn cynnig cymwysterau TGAU diwygiedig yn y pynciau a restrir i'w haddysgu gyntaf o 2017.

Mae seren (*) wrth ochr enw pwnc yn dangos ei fod wedi cael ei gymryd fel cymhwyster TGAU etifeddol drwy gyfrwng y Gymraeg gydag o leiaf un bwrdd dyfarnu ers 2013.

| **Pwnc TGAU (9-1)** | **AQA** | **OCR** | **Pearson (Edexcel)** | **Eduqas CBAC** |
|---|---|---|---|---|
| Hanes yr Henfyd | Na fydd | Bydd | Na fydd | Na fydd |

| **Pwnc TGAU (9-1)** | **AQA** | **OCR** | **Pearson (Edexcel)** | **Eduqas CBAC** |
|---|---|---|---|---|
| Arabeg | Na fydd | Na fydd | Bydd | Na fydd |
| Seryddiaeth | Na fydd | Na fydd | Bydd | Na fydd |
| Bengali | Bydd | Na fydd | Na fydd | Na fydd |
| Tsieinëeg | Bydd | Na fydd | Bydd | Na fydd |
| Gwareiddiad Clasurol | Na fydd | Bydd | Na fydd | Na fydd |
| Economeg | Bydd | Bydd | Na fydd | Na fydd |
| Electroneg* | Na fydd | Na fydd | Na fydd | Bydd |
| Peirianneg | Bydd | Na fydd | Na fydd | Na fydd |
| Astudiaethau Ffilm | Na fydd | Bydd | Na fydd | Bydd |
| Daeareg | Na fydd | Na fydd | Na fydd | Bydd |
| Eidaleg | Bydd | Na fydd | Bydd | Na fydd |
| Japaneeg | Na fydd | Na fydd | Bydd | Na fydd |
| Groeg Modern | Na fydd | Na fydd | Bydd | Na fydd |
| Hebraeg Modern | Bydd | Na fydd | Na fydd | Na fydd |
| Pwyleg | Bydd | Na fydd | Na fydd | Na fydd |
| Seicoleg* | Bydd | Bydd | Bydd | Na fydd |
| Pwnjabeg | Bydd | Na fydd | Na fydd | Na fydd |

| Pwnc TGAU (9-1) | AQA | OCR | Pearson (Edexcel) | Eduqas CBAC |
|---|---|---|---|---|
| Rwseg | Na fydd | Na fydd | Bydd | Na fydd |
| Cymdeithaseg* | Bydd | Na fydd | Na fydd | Bydd |
| Ystadegau | Bydd | Na fydd | Bydd | Na fydd |
| Wrdw | Bydd | Na fydd | Bydd | Na fydd |

## Cymwysterau UG a Safon Uwch (ar wahân) i'w haddysgu gyntaf o 2016

Mae'r tabl isod yn dangos pa gyrff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau UG a Safon Uwch diwygiedig yn y pynciau a restrir.

Mae seren (*) wrth ochr enw pwnc yn dangos ei fod wedi cael ei gymryd fel cymhwyster Safon UG/Uwch etifeddol drwy gyfrwng y Gymraeg gydag o leiaf un bwrdd dyfarnu ers 2013.

| Pwnc UG a Safon Uwch | AQA | OCR | Pearson (Edexcel) | Eduqas CBAC |
|---|---|---|---|---|
| Groeg Clasurol | Nac ydy | Ydy | Nac ydy | Nac ydy |
| Dawns | Ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy |
| Lladin | Nac ydy | Ydy | Nac ydy | Nac ydy |

## Pynciau UG a Safon Uwch (ar wahân) i'w haddysgu gyntaf o 2017

Mae'r tabl isod yn dangos pa gyrff dyfarnu a fydd yn cynnig cymwysterau Safon Uwch ac UG diwygiedig yn y pynciau a restrir i'w haddysgu gyntaf o 2017.

Mae seren (*) wrth ochr enw pwnc yn dangos ei fod wedi cael ei gymryd fel cymhwyster Safon UG/Uwch etifeddol drwy gyfrwng y Gymraeg gydag o leiaf un bwrdd dyfarnu ers 2013.

| **Pwnc UG a Safon Uwch** | **AQA** | **OCR** | **Pearson (Edexcel)** | **Eduqas CBAC** |
|---|---|---|---|---|
| Cyfrifyddu | Bydd | Na fydd | Na fydd | Na fydd |
| Hanes yr Henfyd | Na fydd | Bydd | Na fydd | Na fydd |
| Tsieinëeg | Na fydd | Na fydd | Bydd | Na fydd |
| Gwareiddiad Clasurol | Na fydd | Bydd | Na fydd | Na fydd |
| Electroneg * | Na fydd | Na fydd | Na fydd | Bydd |
| Gwyddor amgylcheddol | Bydd | Na fydd | Na fydd | Na fydd |
| Astudiaethau Ffilm | Na fydd | Bydd | Na fydd | Bydd |
| Daeareg | Na fydd | Bydd | Na fydd | Bydd |
| Hanes Celf | Na fydd | Na fydd | Bydd | Na fydd |
| Eidaleg | Na fydd | Na fydd | Bydd | Na fydd |
| Technoleg Cerddoriaeth* | Na fydd | Na fydd | Bydd | Na fydd |
| Athronyddiaeth | Bydd | Na fydd | Na fydd | Na fydd |
| Rwseg | Na fydd | Na fydd | Bydd | Na fydd |
| Ystadegau | Na fydd | Na fydd | Bydd | Na fydd |